# Gwell Cysylltiad, Gwell Canlyniadau ar Gyfer Tlodi Plant

## Enghreifftiau o gydweithio effeithiol ar waith

**Rheoli**
Rolau clir, prosesau da a ffocws ar ddysgu
Enghraifft: Strategaeth Tlodi Coleg Sir Benfro
Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at sut mae'r Coleg yn lliniaru effeithiau'r argyfwng costau byw drwy godi ymwybyddiaeth, a chynnig adnoddau a chefnogaeth i ddysgwyr, eu teuluoedd a'u staff.

**Nodau a rennir**
Materion a rennir, canlyniadau y cytunwyd arnynt a dull lle mae pawb ar eu hennill
Enghraifft: Adroddiad Tlodi Geiriau i Weithredu, Cyngor ar Bopeth Sir Benfro
Mae defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau a'r rhai sydd â phrofiad bywyd personol yn archwilio elfennau cyffredin o ran yr anawsterau y maent yn eu hwynebu, a pha ddatrysiadau maent yn ei gredu y dylid eu rhoi ar waith i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol y cytunwyd arnynt i'r rhai sy'n byw yn Sir Benfro.

**Cynnwys dinasyddion**
â phrofiad bywyd
Enghraifft: Canolfannau Arloesi, Vibe Youth
Mae'r Canolfannau Arloesi, sydd wedi'u lleoli yn Abertawe, wedi'u cynllunio i ddod â phobl ifanc ac oedolion sydd â phrofiad bywyd o dlodi ynghyd i greu datrysiadau lleol.

**Adnoddau**
Cyllid sefydlog, parhad o ran staff a chyllid a rennir
Enghraifft: Plant yng Nghymru
Mae Plant yng Nghymru yn rheoli'r 'Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant' - cynghrair o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant. Maent hefyd yn rhedeg cyfres o adnoddau i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda chostau byw, gan gynnwys cynnig cyngor a chefnogaeth.

**Gwybodaeth**
Data a rennir, setiau data cyffredin a chyfathrebu
Enghraifft: Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â thlodi plant ymhlith teuluoedd sy'n ceisio noddfa, trwy ddarparu data cywir a mapio anghenion mewn ardaloedd gwasgaru allweddol, (gan lenwi bwlch holl bwysig yn yr ystadegau Tlodi Plant cyfredol).

**Ymddiriedaeth**
Lleisiau cyfartal, gwerthoedd craidd a pherthnasoedd cryf
Enghraifft: ACTIF Gogledd Cymru
Mae ACTIF Gogledd Cymru yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ledled yr ardal sydd i gyd yn rhannu'r un weledigaeth: Pawb yng Ngogledd Cymru yn fwy egnïol, ac yn byw bywydau iachach a hapusach.

Adeiladu Cymru Iachach
Building a Healthier Wales

*Noder: mae'r enghreifftiau uchod yn adlewyrchu rhaglenni a gafodd gyllid gan Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn 2024/25, neu a nodwyd gan y rhai a gyfrannodd at yr asesiad anghenion fel enghreifftiau o arfer gorau. Mae llawer o enghreifftiau eraill o gydweithio effeithiol mewn ymateb i dlodi plant yng Nghymru nad ydynt wedi'u cynnwys yma.*